Cofnodion Cyfarfod Cynllunio ac Anghenion Cyffredinol o Gyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher , 1af Rhagfyr ,yn Neuadd y Sir , Llandeilo am 8.30 pm.

Presennol: Maer Mrs Ros Bellamy, Dirprwy Faer Colin Jenkins, Cyng Pamela Steane Price, Cyng. David A Jones, Cyng. Charlotte Leadbeater, Cyng. Roy Davies, Cyng. Frances Murphy,
Cyng. Paul Faulkner , Cyng. Richard Wallace
June Stait, Clerc.

6301/Rhag//04 Ceisiadau Cynllunio- cefnogwyd :

E08598 Llawn, trawsnewid bwyty i fflat llawr cyntaf a newidiadau i fflat sy'n bodoli'n barod ar y llawr cyntaf.

6302/Rhag/04 Ceisiadau Cynllunio – angen mwy o ystyriaeth :

E08596 Trawsnewid coetsdŷ a gweddillion stabl i mewn i annedd ar safle cyfagos .
Ac E08597 "Bays Hill" Abbey Terrace, Llandeilo –ar gais y Cynghorwyr roedd angen cysylltu â Swyddogion Cynllunio y Sir i drefnu ymweliad â'r safle ac i drafod y cais.

6303/Rhag/04 Arian Amcan 1 -am Farchnad Nwyddau , Llandeilo

Ystyriwyd cynllun y Cyngor Sir i gydweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddarparu Canolfan datblygiadau newydd cyfryngol yn yr hen farchnad nwyddau yn Llandeilo Fe gefnogwyd hyn mewn egwyddor ond gyda'r cais fod y cynllun yn caniatáu defnydd achlysurol o'r adeilad i weithgareddau diwylliannol i'r gymuned. .

6304/Rhag/04 Ceisiadau Cynllunio a ganiatawyd :

Nodwyd i'r Cyngor Sir ganiatáu'r ceisiadau canlynol:

E07438, Ail adeiladu ac adnewyddu waliau ffiniol tu fewn cartilag Ystâd Parc Dinefwr , Llandeilo, Bwthyn Rhif 1 Gerddi Dinefwr ;
E08049, siambr person post diogel yn Heol Latimer / Heol Alan
E08223 gosod dwy ffenestr –do velux yn Pentwyn, Heol Clarence.

6305/Rhag/04 Cadwraeth Coed

Nodwyd gan y Cynghorwyr fod gorchymyn cadwraeth goed wedi'i osod ar Woodland Villa Stryd Rhosmaen .

6306/Rhag/04 Transportation/Trawsgludiaeth :

1. Derbyniwyd llythyr gan WG Evans yn gofyn am gefnogaeth i'w awgrymiad y dylai'r groesfan gael ei symud i leoliad yn agosach at Fanc HSBC, ac i ffwrdd oddi wrth grib yr allt. Gofynnodd y Cynghorwyr am anfon llythyr , mewn ateb iddo ,gan ddweud bod y mwyafrif o Gynghorwyr yn anghytuno gyda'i awgrymiad ,gan iddynt gredu fod y groesfan mewn lle addas yn ganolog wrth fynediad i'r maes parcio . Beth bynnag, fe fydd y llythyr yn cael ei drosglwyddo at sylw y Cyngor Sir.

2. Trafodwyd gan y Cynghorwyr y broblem o drigolion Heol Crescent a oedd yn talu'n flynyddol am barcio yn y Maes Parcio ond doedd ganddyn nhw ddim llefydd ar gadw

iddynt ac yn aml doedd dim lle i barcio . Mater i'r Cyngor Sir oedd hwn ac roedd y Cynghorwyr yn gytun fod y trigolion yn iawn i gwyno .

3. Roedd trigolion Heol Alan yn ofidus nad oedd arwydd AROS wrth gyffordd y briffordd Stryd Rhosmaen. Fe fydd hyn yn cael ei adrodd yn ôl at Adran Briffyrdd y Cyngor Sir.

4. Roedd ceir a oedd yn parcio ger cyffordd Heol Alan,Heol Blende , Stryd y Cei , a Stryd Rhosmaen yn creu rhwystr i weld yn glir ac roedd hyn yn beryglus . Fe fyddai llinellau melyn i'w croesawu yno ac fe fyddai llythyr yn cael ei anfon at y Cyngor Sir i'r perwyl hynny.

6307/Rhag/04 Goleuadau

Roedd un golau diffygiol yn Greenfield Place wrth gornel Maes Parcio Spar ac fe fyddai hyn yn cael ei reportio. .

Roedd y llif oleuadau wrth yr Eglwys yn dod ymlaen yn rhy hwyr ers troi y clociau yn ôl . Mae angen newid yr amserydd ar y golau yn ôl un awr hefyd.